**SEWR -05-00 (min)**

**PWYLLGOR RHANBARTH Y DE-DDWYRAIN**

**COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad** | Dydd Gwener 20 Hydref 2000 |
| **Amser:** | 9.30am tan 12.55pm |
| **Lleoliad:** | Y Ganolfan Ddinesig, Glynebwy |

**Yn Bresennol:**

*Aelodau:*

| | |
|---|---|
| Jenny Randerson (Cadeirydd) | Canol Caerdydd |
| Lorraine Barrett | De Caerdydd a Phenarth |
| Rosemary Butler | Gorllewin Casnewydd |
| Christine Chapman | Cwm Cynon |
| Jane Davidson | Pontypridd |
| Geraint Davies | Rhondda |
| Janet Davies | Gorllewin De Cymru |
| Jocelyn Davies | Dwyrain De Cymru |
| Janice Gregory | Ogwr |
| John Griffiths | Dwyrain Casnewydd |
| Brian Hancock | Islwyn |
| Jane Hutt | Bro Morgannwg |
| Pauline Jarman | Canol De Cymru |

| | |
|---|---|
| Peter Law | Blaenau Gwent |
| Huw Lewis | Merthyr Tudful a Rhymni |
| David Melding | Canol De Cymru |
| Lynne Neagle | Torfaen |
| Owen John Thomas | Canol De Cymru |
| Phil Williams | Dwyrain De Cymru |

*Yn bresennol:*

| | |
|---|---|
| John Bader | Yr Is-adran Adnewyddu Tai a Chymunedau |
| Peter Farley | Yr Is-adran Hybu Iechyd |
| Don Bearcroft | Grp Amgueddfeydd Abertyleri a’r Cylch |
| Rhian Robson | Prosiect Cymunedol Colcot |
| Alan Williams | Ymddiriedolaeth Ddatblygu Ebbw Fach |
| Margaret Hannigan-Popp | Groundwork Merthyr a Rhondda Cynon Taf |
| Stella Harry | Prosiect Cymunedol Llanharan |
| Louise Gray | Canolfan Ddatblygu Gymunedol South Riverside |
| Richard Morgan | Valleys Kids |
| Peter Slater | Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent |

*Ysgrifenyddiaeth:*

| | |
|---|---|
| Martin Stevenson | Clerc |
| Phil Mulraney | Dirprwy Glerc |

**Sylwadau agoriadol**

1. Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i Lynebwy a diolchodd i Gyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent am gael defnyddio eu cyfleusterau.

2. Codwyd cwestiwn pa un y dylai Jenny Randerson barhau yn Gadeirydd y Pwyllgor yn dilyn ei phenodiad i'r Cabinet yn ddiweddar. Dywedodd Jenny Randerson ei bod yn bwriadu sefyll i lawr fel Cadeirydd a chytunodd y Pwyllgor i ethol Cadeirydd newydd ar ddiwedd y cyfarfod o dan 'Unrhyw fusnes arall.

**Eitem 1: Ymddiheuriadau am absenoldeb**

3. Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth Peter Black, Alun Cairns, David Davies, Ron Davies, Sue Essex, Michael German, William Graham, Carwyn Jones, Dai Lloyd, Jonathan Morgan a Rhodri Morgan.

**Eitem 2: Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 7 Gorffennaf: SEWR-04-00 (min)**

4. Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 7 Gorffennaf.

5. Cafwyd cais am wybodaeth am y sefyllfa ddiweddaraf o ran y cynnig i ailagor y rheilffordd rhwng Glynebwy a Chasnewydd i drafnidiaeth teithwyr.

6. Cytunwyd y dylid cynnwys rhestr o bwyntiau gweithredu ynghlwm wrth y cofnodion i'r dyfodol *[Nodyn gan y Clerc: Mae hon ynghlwm fel Atodiad 1].*

**Eitem 3: Rhoi Cymunedau'n Gyntaf – Y ffordd ymlaen: SEWR-05-00 (td.1)**

7. Cyflwynodd John Bader y papur, a roddai grynodeb o'r materion a godwyd gan y rheini a oedd wedi ymateb i gam cyntaf yr ymgynghori ynghylch Rhoi Cymunedau'n Gyntaf. Eglurodd y byddai Rhoi Cymunedau'n Gyntaf yn ceisio mynd i'r afael â phroblemau'r cymunedau mwyaf difreintiedig mewn ffordd gynhwysfawr. Yn arbennig, byddai'r dull newydd o weithredu yn goresgyn y diffyg cydlyniad a fu ymhlyg yn rhaglenni'r gorffennol, a'i gwnaeth yn anodd iawn i gymunedau gyd-drefnu'r gweithredu ar lefel leol. Y nod oedd creu cymunedau hunangynhaliol, a thra'n cydnabod mai adfywio economaidd oedd yr allwedd, rhaid oedd mynd i'r afael ag achosion gwaelodol amddifadedd megis addysg wael ac anghydraddoldebau iechyd.

8. Roedd papur ymgynghorol mwy manwl, a fyddai'n cyflwyno'r fframwaith polisi ar gyfer Rhoi Cymunedau'n Gyntaf, yn cael ei baratoi. Byddai hwn yn cynnwys cynigion ar: sut y câi cymunedau eu dethol i'w cynnwys yn y rhaglen; materion cyllido, gan gynnwys yr angen i dargedu cyllid prif ffrwd yn effeithiol; datblygu potensial, fel bod cymunedau'n gallu cael y budd mwyaf posibl o'r rhaglen; a chreu partneriaethau cymunedol i ddatblygu gweledigaeth cymuned a chynllunio sut mae ei gwireddu. Cynigiwyd y dylid mesur cynnydd drwy system feincnodi a

fyddai'n ddarostyngedig i ddilysu allanol. Yn dilyn yr ymgynghori pellach hwn, y bwriad oedd rhoi'r rhaglen ar waith yn 2001-02.

9. Pwysleisiodd Peter Farley wedyn y dolenni cyswllt rhwng gwella iechyd a datblygu cymunedol. Ceisiai 'Gwell Iechyd – Gwell Cymru' fynd i'r afael ag achosion gwaelodol afiechyd, gan gydnabod y ffaith na fyddai perswadio pobl i fabwysiadu ffyrdd iachach o fyw ond yn gweithio yng nghyd-destun amgylchiadau economaidd a chymdeithasol sy'n gwella. Bydd i'r Cynghreiriau Iechyd Lleol, sydd eisoes wedi'u sefydlu yn ardaloedd y rhan fwyaf o awdurdodau lleol, rôl o bwys yn symud agenda Rhoi Cymunedau'n Gyntaf yn ei blaen.

10. Roedd y prif eitemau a godwyd yn ystod y drafodaeth fel a ganlyn:

- O ran y meini prawf ar gyfer dethol cymunedau i'w cynnwys yn y rhaglen Rhoi Cymunedau'n Gyntaf, roedd yr Aelodau yn gyffredinol yn cefnogi'r cynnig i ddefnyddio gwybodaeth leol ochr yn ochr â'r Mynegai Amddifadiad Amlweddog. Seilir y Mynegai ar lefel Etholaeth, a thrwy ddefnyddio gwybodaeth leol byddai'n bosibl diffinio cymunedau cydlynol yn haws, gan gynnwys pocedi difreintiedig yng nghanol ardaloedd mwy llewyrchus.
- Roedd yna fodd bynnag bryder difrifol yngln â'r cynnig i ganiatáu i bob awdurdod lleol restru hyd at bum cymuned i'w chynnwys yn y rhaglen, o gofio'r amrywiadau amlwg yn lefel yr amddifadiad a brofir drwyddi draw yn ardaloedd gwahanol awdurdodau lleol. Eglurodd John Bader y byddai'n rhaid i bob cymuned a ddewisir ar gyfer y rhaglen fodloni set o feini prawf amddifadiad a nodir yn y papur ymgynghorol. Serch hynny, y teimlad cyffredinol ymysg yr Aelodau oedd y dylid targedu'r adnoddau sydd ar gael at yr ardaloedd sy'n fwyaf eu hangen, gan seilio'r meini prawf dethol ar safle cymuned yn erbyn y Mynegai Amddifadiad Amlweddog i Gymru gyfan.
- O ran cyllid, roedd yr Aelodau'n awyddus y dylai fod yn bosibl cyfeirio cyllid ar gyfer rhaglenni prif ffrwd tuag at y cymunedau yn y rhaglen Rhoi Cymunedau'n Gyntaf. Yn ogystal, roedd yn bwysig manteisio i'r eithaf ar y cyllid Amcan 1 ar gyfer adfywio cymunedol.
- Croesawai'r Aelodau yr ymrwymiad cyllido hirdymor a fyddai'n nodwedd o'r rhaglen Rhoi Cymunedau'n Gyntaf. Teimlid mai un o'r prif wahaniaethau rhwng Rhoi Cymunedau'n Gyntaf a rhaglenni blaenorol oedd y gwahaniaeth yn amserlen yr ymrwymiad.
- Roedd yna bryder bod Cymru yn ôl pob golwg y tu ôl i rannau eraill o'r Deyrnas Unedig yn nhermau datblygu polisïau ac arferion adfywio cymunedol, yn enwedig y Strategaeth ar gyfer Adnewyddu Cymdogaethau yn Lloegr a'r partneriaethau cynhwysiant cymdeithasol yn yr Alban. Yn ychwanegol, roedd Cymru mewn perygl o ddisgyn yn ôl ymhellach oni châi adnoddau digonol eu neilltuo i'r rhaglen Rhoi Cymunedau'n Gyntaf. Nodwyd bod nifer y swyddogion yng Nghymru sy'n gweithio ar fynd i'r afael ag allgáu cymdeithasol yn sylweddol is yn ôl cyfran nag yng ngweddill y Deyrnas Unedig.
- Roedd yr Aelodau'n awyddus i arferion da o wledydd eraill gael eu canfod a'u hymgorffori yn y rhaglen Rhoi Cymunedau'n Gyntaf. Awgrymwyd y gallai fod yna wersi i'w dysgu o'r dull o ymdrin ag adfywio cymunedol drwy gydsyniaeth a fabwysiadir yn y

gwledydd Sgandinafaidd. Dywedodd John Bader fod gwaith ar y gweill ar gronfa ddata o arferion da ym maes adfywio cymunedol, ac y byddid yn ymchwilio i enghreifftiau o Sgandinafia gyda golwg ar eu cynnwys o bosibl.

11. Diolch y Cadeirydd i John Bader a Peter Farley am eu cyflwyniadau ac am ateb cwestiynau'r Aelodau. Gwahoddodd hwy i wneud y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau yn ymwybodol o farn y Pwyllgor. Gwahoddodd John Bader hefyd i ddarparu ymateb ysgrifenedig i'r nifer o bwyntiau manwl yngln â Rhoi Cymunedau'n Gyntaf a godwyd gan yr Aelodau *[Nodyn gan y Clerc: Mae hwn ynghlwm fel Atodiad 2].*

**Eitem 4: Sesiwn drafod agored**

12. Gwahoddodd y Cadeirydd gwestiynau oddi wrth aelodau'r cyhoedd. Dywedodd y byddai'n trefnu i bob cwestiwn gael ateb ysgrifenedig oddi wrth y Gweinidog perthnasol.

13. Dim ond un cwestiwn a gafwyd yn ymwneud â fformiwla'r Asesiad Gwario Safonol ar gyfer gwasanaethau addysg.

**Eitem 5: Cyflwyniadau gan gyrff sy'n gyfrifol am adfywio cymunedol**

14. Rhoddwyd nifer o gyflwyniadau i'r Pwyllgor gan gyrff sy'n gyfrifol am adfywio cymunedol. Y siaradwyr a'r cyrff oedd:

- Don Bearcroft: Grp Amgueddfeydd Abertyleri a'r Cylch
- Rhian Robson: Prosiect Cymunedol Colcot
- Alan Williams: Ymddiriedolaeth Ddatblygu Colcot
- Margaret Hannigan-Popp: Groundwork Merthyr a Rhondda Cynon Taf
- Stella Harry: Prosiect Cymunedol Llanharan
- Louise Gray: Canolfan Ddatblygu Gymunedol South Riverside
- Richard Morgan: Valleys Kids
- Peter Slater: Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent

15. Mae copïau o'r cyflwyniadau sydd ar gael ynghlwm fel Atodiadau 3 i 9.

16. Codwyd y pwyntiau canlynol yn ystod y drafodaeth:

- Nododd yr Aelodau y pryderon a fynegwyd gan fudiadau'r sector gwirfoddol bod cyrchu at y ffynonellau cyllido sydd ar gael mor gymhleth. Roedd y cynlluniau grant yn aml yn anodd i'w deall ac yn golygu bod y sector gwirfoddol yn dyblygu ymdrech yn wastraffus. Yr oedd pryder neilltuol yngln â'r defnydd o gyllid her. Dywedodd John Bader fod yna dros 40 o raglenni gwahanol yn ymwneud ag allgáu cymdeithasol. Y bwriad oedd datblygu cyfundrefn gyllido fwy hyblyg ar gyfer Rhoi Cymunedau'n Gyntaf, na fyddai

wedi’i chlymu i gyfnodau amser penodol.

- Roedd pryder hefyd nad oedd cyllid grant ar gael i fudiadau gwirfoddol ond ar ôl i brosiectau gael eu cwblhau, er bod angen cefnogaeth ar fudiadau yn aml yn gynnar yn oes eu prosiectau. Yn y cyd-destun hwn, nodwyd ei bod yn bosibl darparu hyd at 7 y cant o’r cyllid sydd ar gael o dan y Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd fel blaendaliadau.
- Nodwyd y gallai Rhoi Cymunedau’n Gyntaf gyfrannu tuag at wella iechyd drwy herio’r systemau gwerthoedd presennol. Roedd dolen gyswllt yn aml rhwng ffyrdd afiach o fyw, er enghraifft mewn perthynas ag iechyd rhyw ac ysmygu, a thlodi a diffyg dyhead cymdeithasol. Awgrymwyd y gellid rhoi sylw i’r ffactorau hyn o fewn rhaglenni addysg.
- Câi rôl mudiadau cymunedol yn hyrwyddo delwedd Gymreig gadarnhaol ei chydnabod, ynghyd â’u cyfraniad tuag at gefnogi dysgu gydol oes a thwristiaeth.

17. Diolchodd y Cadeirydd i’r cyflwynwyr am rannu gyda’r Pwyllgor o’u harbenigedd a’u profiad ymarferol yn ymateb i’r her a wynebir wrth weithio mewn ardaloedd difreintiedig.

**Eitem 6: Dyddiad y cyfarfod nesaf**

18. Cadarnhaodd y Cadeirydd y câi’r cyfarfod nesaf ei gynnal ddydd Gwener 1 Rhagfyr yng Nghanolfan Hamdden Cas-gwent. Byddai’r cyfarfod yn canolbwyntio ar y Strategaethau Gwella Iechyd sy’n cael eu paratoi gan yr awdurdodau iechyd yn y rhanbarth. Byddai Clerc y Pwyllgor yn trefnu adroddiad cynnydd ar y fformiwla gyllido newydd ar gyfer awdurdodau iechyd.

19. Awgrymwyd y dylai cyfarfod i’r dyfodol edrych ar faterion trafnidiaeth yn y rhanbarth.

**Eitem 7: Unrhyw fusnes arall**

20. Gwahoddodd Jenny Randerson enwebiadau i ymgymryd â’r Gadair. Peter Black oedd yr unig enwebiad ac fe’i hetholwyd yn Gadeirydd gyda’r penodiad i ddod i rym ar unwaith.

**Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor Hydref 2000**